Adroddiad Bioamrywiaeth – Cyngor Cymuned Buan

Gwneir yr adroddiad yma mewn perthynas â'r Deddf yr Amgylchedd Cymru 2006 Rhan 1-S6.

Cymuned fechan ar Benrhyn Llyn yw Buan sy'n cynnwys pentref Rhydyclafdy ac ardaloedd Boduan a Cheidio. Credir bod Cyngor Cymuned Buan yn un o'r cynghorau lleiaf yng Ngwynedd ac yn cael ei wasanaethu gan 10 cynghorydd wedi eu hethol fel a ganlyn:

Mae 3 ward yn y gymuned yma.

- Ward Bachellaeth – 5 Cynghorydd
- Ward Boduan – 3 Cynghorydd
- Ward Ceidio – 2

Mae 1 Cynghorydd Sirol.

Nid yw'r Cyngor yn berchen ar unrhyw dir nac yn cael unrhyw reolaeth ar gapeli nac eglwysi.

Fodd bynnag, mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori â'r Cyngor yn uniongyrchol ar faterion fel cynllunio, adeiladu eiddo, a gwaith ar raddfa fawr fel cwympo coed yn y Gymuned.

Pan fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn camau o'r fath, maent yn cofnodi maint y gwrthwynebiadau a'r pwyntiau a wnaed yn y cofnodion a gofnodir gan y Clerc.

Mae gan y Cyngor Cymuned y gallu i ddylwanwadu ar geisiadau cynllunio ac mae wedi ymrwymo i lywodraethu priodol o amgylch ei ddyletswydd o amgylch S6.

Mae'r cyngor wedi neilltuo arian pe bai aelodau'r gymuned yn gofyn iddynt gwblhau'r prosiectau bach fel prosiectau plannu a phrosiectau bioamrwyiaeth eraill.

Cae Chwarae, Rhydyclafdy

Mae Cyngor Cymuned Buan yn gyfrifol am dori gwellt y Cae Chwarae yn Rhydyclafdy yn reolaidd. Yn ystod 2024 daeth criw o gymdogion Rhydyclafdy at eu gilydd i greu Pwyllgor Cae Chwarae, Rhydyclafdy. Cafwyd arian grant gan Mantell Gwynedd, i droi'r cae glaswellt sydd wedi ei leoli yng nghanol y pentref i Gae Chwarae iawn i blant yr ardal. Bu i Gyngor Cymuned Buan gytuno i gyfrannu at y Cynllun yma, ac maent yn gobeitho cael harddu'r ardal hefo blodau/planhigion mewn bocsus plannu.

Tacluso Mynwentydd

Mae Cyngor Cymuned Buan yn gyfrifol am dori 2 fynwent yn yr ardal sef fynwent Eglwys Boduan a Eglwys Llanfihangel Pellechaeth.

Tacluso o gwmpas y Garreg Gofeb ym Moduan

Mae Cyngor Cymuned Buan wedi cytuno i dacluso o gwmpas y Garreg Gofeb ym Moduan yn rheolaidd er mwyn cadw'r llecyn tir yn daclus.

Llwybrau Cyhoeddus

Nid yw Cyngor Cymuned Buan yn gyfrifol am unrhyw lwybr cyhoeddus yn yr ardal.

Fferm Solar (Tyddyn Cae, Boduan)

Ar dir Fferm Tyddyn Cae ym Moduan lleolir Fferm Solar lle gwelir swm helaeth o baneli

Solar yno sy'n cynhyrchu trydan i'r Grid Cenedlaethol. Yn flynyddol mae'r Cyngor Cymuned a'r pentrefi cyfagos yn elwa o hyn, ac yn ystod 2024/2025 derbynniwyd tâl o £5,553.79c i goffra'r Cyngor Cymuned.

Mae'r Cyngor wedi nodi'r amcanion canlynol :

- Ymgorffori bioamrwyiaeth i brosesau gwneud penderfyniadau a chaffael. Bydd y cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r clerc a'r cynghorwyr a bydd yn destun adolygiad parhau.
- Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac mae'n bwysig ac yn gwella ein tystiolaeth drwy fonitio a deall y materion yng nghyfarfodydd y Cyngor. Bydd camau o'r fath yn cael eu cynnal ar y cyd â nodau ac amcanion Cyngor Gwynedd.
- Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd natruiol drwy adfer cynefionedd a chreu cynefinoedd newydd. Bydd hyn yn cael ei ariannu drwy unrhwy grantiau cymunedol sydd ar gael sy'n cefnogi cadwraeth ein cynefin naturiol. Bydd disgwyl i bob cynghorydd gael rhywfaint o gyfrifoldeb i gyflawni'r nodau hyn.
- Mynd i'r afael â bygythiadau a phwysau i sbeisys a chynefinoedd. Er mwyn cyflawni'r nôd hwn, rhaid craffu ar bob cais cynllunio er mwyn atal effaith negyddol ar sbeisys, cynefinoedd a'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd.
- Rhoi fframwaith ar waith fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn ac adolygu effeithlonrwydd y cynllun hwn bob blwyddyn.

Bydd y clerc yn sicrhau y bydd camau a gyflawnir gan y Cyngor i gyflawni eu nod a'u hamcanion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion pob cyfarfod a gynhelir gan y Cyngor.

Creuwyd yr Adroddiad hon 05/06/25